Ysgol Rhydypennau

Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD
Ffôn: 01970 828608 e-bost: prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk

25ain Medi 2017

Annwyl Riant,

Gwybodaeth Ysgol
Gair bach sydyn o ddiolch i chi am ddychwelyd holl waith papur 'gwybodaeth gyswllt' ayyb ar ddechrau'r tymor. Bellach, mae ein systemau electronig wedi'i ddiweddaru ac felly gobeithio eich bod yn derbyn gohebiaethau dros e-bost a neges destun. Os am unrhyw reswm nad ydych yn derbyn y rhain a'ch bod chi wedi dychwelyd eich gwybodaeth atom ni, rhowch wybod i Mrs Delyth Morgan yn swyddfa'r ysgol er mwyn i ni wirio ein cofnodion. Diolch yn fawr iawn. Gwelwch yn atodol i'r llythyr hwn 'Gytundeb Cartref Ysgol'. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn fodlon darllen dros hwn gyda'ch plentyn, ei arwyddo a'u dychwelyd i athro dosbarth eich plentyn. Diolch.

Holiaduron Rhieni
Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ddychwelyd holiaduron i'r ysgol cyn diwedd tymor yr haf. Bellach, rydyn ni wedi dadansoddi'r holiaduron, a chynnwys eich sylwadau adeiladol yn ein dogfen Hunan Arfarnu. Gallwch weld y dadansoddiad ar ein gwefan newydd dan y ddolen 'Gwybodaeth'.

Gwefan newydd
Mae nifer ohonoch wedi canmol cynnwys ein gwefan newydd yn ogystal â chrybwyll pethau ychwanegol a fyddai o ddefnydd i chi fel rhieni, a chymuned yr ysgol. Rydym wedi gweithredu ar rai o'r syniadau hyn, ac yn barod iawn i dderbyn sylwadau pellach er mwyn gwella ein systemau rhannu gwybodaeth ayyb. Os nad ydych wedi cael cyfle eto, cymrwch gip ar www.ysgolrhydypennau.weebly.com er mwyn dod yn gyfarwydd ag e.

System Ffôn
Ers canol wythnos ddiwethaf, rydym wedi derbyn system ffôn newydd yn yr ysgol. Bellach, byddwch yn medru cofrestru eich plentyn yn absennol yn y bore gan ddewis opsiwn 'Cofrestru disgybl yn absennol' neu dal ymlaen i siarad â rhywun. Gobeithio bydd y system newydd hwn yn hwyluso cyfathrebu i chi fel rhieni ac i ni fel staff.

Cyfarfodydd
Cofiwch am gyfarfod blynyddol y GRhA heno yn neuadd yr ysgol am 7:00. Mae yna groeso mawr i bawb, a chyfle i chi ddysgu mwy am waith a budd y gymdeithas i'n disgyblion. Cofiwch hefyd, bydd cyfarfod i rieni ar ddydd Llun 2il Hydref am 3:30yp yn neuadd yr ysgol gydag arolygwyr Estyn. Bwriad y cyfarfod hwn ydy i rieni rhoi eu barn am ansawdd gwaith yr ysgol. Byddwn yn gwerthfawrogi'ch presenoldeb. Diolch.

Parcio
Yn ystod yr wythnos diwethaf, fe fynegodd rhiant a disgybl consyrn am barcio y tu allan i'r ysgol yn y gulfan am 3:30yp. Mae'n debyg bod mwy nac un car wedi gyrru i mewn i'r gulfan yn erbyn llif y traffig ac yn erbyn y system un-ffordd sy'n bodoli yma. Er mwyn sicrhau diogelwch holl ddefnyddwyr yr ysgol, gofynnaf yn garedig i chi ddilyn y cyfarwyddiadau sydd ar yr arwyddbyst, fydd yn hwyluso llif y traffig a chyfrannu at ddiogelwch pawb. Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir
Peter Leggett (Pennaeth)

Ysgolion Iach Ceredigion
We Are A... Fairtrade School Rydyn Ni'n Ysgol... Masnach Deg
Eco-Sgolion

Ysgol Rhydypennau

Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD

Ffôn: 01970 828608 e-bost: prif@rhydypennau.ceredigion.sch.uk

25th September 2017

Dear Parent,

School Information

Grateful thanks to you all for returning the 'mountain' of paperwork (contact details etc.) required at the beginning of term. We have now updated our electronic systems, therefore if you have registered to receive email and txt message correspondence, you should now be receiving them. If for any reason you are not receiving these, please contact Mrs Delyth Morgan in the school office so that we may check our records. Thank you. Please see the attached 'Home School Agreement'. I'd be very grateful if you could read over this information with your child, sign it and return it to your child's class teacher.

Parental Questionnaires

Many thanks to everyone who returned the parental questionnaires to school just before the summer break and for all your constructive comments. We have analysed your responses and have incorporated them in to our self-evaluation document which will allow us to build on our current provision. You can access the results on our new website under the 'Information' tab.

New Website

Many of you have praised the content of our new school website and we've also received some excellent suggestions as to how to improve it further. We have already actioned some of these ideas and would welcome any further feedback you have so that we can continue to improve our information sharing systems. If you haven't had a chance to view the website yet, please have a look and familiarise yourself with the new content at www.ysgolrhydypennau.weebly.com

New Phone System

Since the middle of last week, we have had a new telephone system installed. We now have the facility for you to record your child as absent in the morning, by choosing the 'record absence' option or if you prefer, you can hold to be connected to the school office. We hope that this system will improve efficiency for parents and staff alike.

Meetings

Don't forget our PTA AGM this evening at 7pm in the school hall. Everyone is welcome, and it will be a good opportunity for newcomers to learn more about the work and impact of the PTA on pupils' lives at school. Also, please remember the parents' meeting with Estyn inspectors on Monday 2nd October at 3:30pm in the school hall. The purpose of this meeting is for parents to share with the inspection team their thoughts on the quality of the education that we provide. We would appreciate your attendance. Thank you.

Parking

I was approached last week by a parent and pupil, who shared their concerns re: parking in the layby at the end of the day. Allegedly, more than one vehicle entered the layby going against the flow of traffic and ignoring the one-way system signs. In order to ensure the safety of all users of the premises, I ask kindly that everybody adheres to the one-way system signs clearly displayed. Thank you for your cooperation.

Sincerely
Peter Leggett (Headteacher)